
Datganiad ar y newidiadau i amodau trwyddedau darlledu

Datganiad ar y newidiadau i amodau'r trwyddedau teledu, radio ac amblecs a roddir gan Ofcom o dan Ddeddfau Darlledu 1990 ac 1996

Wedi'i adolygu ar gyfer ei gyhoeddi (adolygiadau wedi'u marcio â [X])

DATGANIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 20 Tachwedd 2020

1. Trosolwg

- 1.1 Mae'r Datganiad hwn yn nodi'r newidiadau y mae Ofcom yn eu gwneud i'r amodau sydd wedi'u cynnwys mewn trwyddedau darlledu teledu, radio ac amblecs a gyhoeddwyd o dan Ddeddfau Darlledu 1990 a 1996.
- 1.2 Mae'r rhain yn cynnwys dau ddiwygiad i drwyddedau darlledu teledu i adlewyrchu gofynion newydd y Gyfarwydddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol ("AVMSD") ddiwygiedig a sut bydd Llywodraeth y DU yn gweithredu'r Gyfarwydddeb drwy'r [Rheoliadau Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol 2020](#) ("Rheoliadau AVMS") a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 2020. O dan delerau'r Cytundeb Ymadael, ymrwymodd Llywodraeth y DU i weithredu deddfwriaeth yr UE hyd at ddiwedd y cyfnod pontio, sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Y tu hwnt i hyn, bydd yr AVMSD diwygiedig yn parhau i fod mewn grym yn neddfwriaeth y DU fel cyfraith 'cadw' yr UE.
- 1.3 Bydd ein cynigion ar gyfer trwyddedau teledu hefyd yn adlewyrchu newidiadau i'r ddeddfwriaeth a ddaw i rym ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben. Yn olaf, mae'r Datganiad hwn hefyd yn nodi rhai newidiadau eraill rydym yn eu gwneud i bob trwydded darlledu.
- 1.4 Drwy gydol y Datganiad hwn rydym yn cyfeirio'n bennaf at amodau trwydded yn ôl eu henw, yn hytrach na'u rhif. Y rheswm am hyn yw bod rhifau'r amodau trwydded yn amrywio rhwng y gwahanol fathau o drwyddedau darlledu yn aml. Rydym wedi cynnwys rhestr o enwau'r amodau trwydded sy'n cael eu crybwyll gennym yn y Datganiad hwn, a'r rhif amod trwydded cyfatebol ar gyfer pob math o drwydded, yn Atodiad 1.

Ein penderfyniad – yn gryno

Newidiadau sy'n deillio o'r AVMSD ddiwygiedig (trwyddedau teledu yn unig)

- Ychwanegu amod trwydded newydd at drwyddedau gwasanaeth cynnwys trwyddedadwy teledu ("TLCS"), gwasanaeth rhaglenni teledu digidol ("DTPS"), gwasanaeth rhaglenni teledu digidol gwasanaethau cyhoeddus ("PS-DTPS"), gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol ("L-DTPS"), gwasanaeth cyfnewid digidol ("DRS"), gwasanaethau teledu cyfyngedig ar gyfer digwyddiad ("RTSL-E"), a gwasanaeth ychwanegol teledu digidol ("DTAS"), gan fynnu bod trwyddedeion yn rhoi gwybod i Ofcom am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar bennu awdurdodaeth y gwasanaeth trwyddedig. Mae hyn yn disodli'r gofyniad presennol mewn rhai trwyddedau i roi manylion i Ofcom am unrhyw newid yng ngwlad sefydlu trwyddedai; a
- Diwygio'r amod "darpariaeth y gwasanaeth [math o wasanaeth] gan y Trwyddedai" presennol mewn trwyddedau TLCS, DTPS, PS-DTPS, L-DTPS, DRS, RTSL-E a DTAS gan ychwanegu gofyniad i drwyddedeion gyhoeddi cadarnhad bod y gwasanaeth yn perthyn i awdurdodaeth y DU. Hefyd, bod y gofyniad presennol i drwyddedeion gyhoeddi neu ddarparu enw, cyfeiriad a chyfeiriad electronig y trwyddedai i dderbynwyr y gwasanaeth yn cael ei adlewyrchu yn yr amod yn nhrwyddedau PS-DTPS a DRS. Nid ydym bellach yn credu ei bod yn angenrheidiol mynnu bod trwyddedeion yn rhoi enw unrhyw wlad arall yn yr UE neu Ardal Economaidd Ewrop y mae ei hawdurdodaeth yn dod o dan y gwasanaeth.

Newidiadau sy'n deillio o Reoliadau Darlledu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (y "Rheoliadau Ymadael") (trwyddedau teledu yn unig)

- Ychwanegu amod trwydded newydd sy'n berthnasol i ddarparwyr Cyfeirydd Rhaglenni Electronig ("EPG"), sy'n mynnu eu bod yn sicrhau bod unrhyw wasanaeth sy'n cael ei restru neu ei hyrwyddo gan eu llwyfan/cyfeirydd, neu y gellir cael mynediad ato drwy'r llwyfan/cyfeirydd, wedi'i drwyddedu'n briodol;
- Ychwanegu amodau trwydded newydd sy'n mynnu bod trwyddedeion yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr am gyfansoddiad cyfalaf a sut caiff gwasanaethau eu hariannu, os yw'r gwasanaeth trwyddedig yn wasanaeth rhaglenni sy'n dderbyniadwy mewn Parti ECTT ar wahân i'r Deyrnas Unedig;
- Ychwanegu amodau trwydded sy'n nodi pa bryd y bydd rheolau cynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol ("ECTT") yn berthnasol;
- Newidiadau i feini prawf awdurdodaeth yn deillio o'r newid o drefn reoleiddio sy'n seiliedig ar yr AVMSD, i'r un a sefydlwyd gan y Rheoliadau Ymadael;
- Ychwanegu diffiniadau newydd, yn ôl yr angen, at Amod 1 y trwyddedau TLCS, DTPS, PS-DTPS, L-DTPS, DRS, RTSL-E a DTAS. Bydd y rhain yn cynnwys:
 - i) diffiniad o'r "ECTT";
 - ii) diffiniad o "Barti'r ECTT";
 - iii) diffiniad o Gyfeirydd Rhaglenni Electronig a Reoleiddir".

Newidiadau eraill rydym yn eu gwneud (pob trwydded gwasanaeth, gan gynnwys y rheini y gallem eu trwyddedu yn y dyfodol ¹)

- Diwygiad i eiriad yr amod “force majeure” ym mhob TLCS, DTPS, PS-DTPS, L-DTPS, DRS, RTSL-E, DTAS, gwasanaeth darlledu sain analog (“ASPS”),² gwasanaeth radio cymunedol (“CR”), gwasanaeth rhaglenni sain digidol (“DSPS”),³ gwasanaeth radio ychwanegol analog (“AS”), gwasanaeth radio ychwanegol digidol (“DAS”), gwasanaeth cynnwys radio trwydded gwasanaeth radio analog (“RLCS”), trwydded gwasanaeth cyfyngedig tymor hir (“LRSL”), trwydded gwasanaeth cyfyngedig tymor byr (“SRSL”), trwydded gwasanaeth cyfyngedig systemau dosbarthu sain (“ADS-RSL”), trwydded amblecs radio (“R-MUX”) a thrwydded amblecs teledu daearol digidol (“DTT-MUX”). Mae’r diwygiad yn egluro y bydd yr amod “force majeure” dim ond yn cael ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd lle mae’r drwydded wedi cael ei thorri o ganlyniad i amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y trwyddedai;
- Diwygio’r amod “cadw a chynhyrchu recordiadau” ym mhob trwydded TLCS, DTPS, PS-DTPS, L-DTPS, DRS, RTSL-E, DTAS, ASPS, CR, DSPS, AS, DAS, RLCS, LRSL, SRSL ac ADS-RSL Bydd y newid yn sicrhau bod yr amod yn berthnasol pa un a yw Ofcom wedi cael cwyn am safonau ai peidio, a’i fod yn addas i’r diben mewn achosion lle mae’r trwyddedai yn ddarparwr EPG. Rydym wedi rhoi’r gorau i’n cynnig y dylai recordiadau fod o “ansawdd darlledu”;
- Diwygio’r amod “darparu gwybodaeth i Ofcom yn gyffredinol” ym mhob trwydded TTLCS, DTPS, PS-DTPS, L-DTPS, DRS, RTSL-E, DTAS, ASPS, CR, DSPS, AS, DAS, RLCS, LRSL, SRSL, ADS-RSL, R-MUX a DTT-MUX Bydd y newid yn symud rhannau presennol yr amod “darparu gwybodaeth i Ofcom yn gyffredinol” sy’n nodi sefyllfaoedd neu ddigwyddiadau y mae’n ofynnol i drwyddedeion roi gwybod i ni amdanynt i amod newydd “hysbysiadau i Ofcom”;
- Dileu’r gofyniad yn yr amod “darparu gwybodaeth i Ofcom yn gyffredinol” sydd wedi’i gynnwys yn DTPS, PS-DTPS, L-DTPS a DTAS sy’n nodi y dylid cyflwyno ffurflenni incwm a gwariant bob hanner blwyddyn;
- Cynnwys amod newydd “hysbysiadau i Ofcom” ym mhob trwydded TLCS, DTPS, PS-DTPS, L-DTPS, DRS, RTSL-E, DTAS, ASPS, CR, DSPS, AS, DAS, RLCS, LRSL, SRSL, ADS-RSL, R-MUX a DTT-MUX Bydd yr amod yn cynnwys y gofynion presennol i drwyddedeion roi gwybod i Ofcom am newid rheolaeth, a diwygiadau i eiriad yr amod presennol i sicrhau ei fod yn berthnasol ym mhob achos;
- Geiriad ychwanegol i amod y drwydded “diddymu” ym mhob trwydded ASPS, CR, DSPS, AS, DAS, RLCS, LRSL, SRSL ac ADS-RSL i adlewyrchu pŵer Ofcom i atal y mathau hyn o drwydded wrth osod sancsiwn;
- Diwygio’r amod “darparu gwybodaeth i Ofcom yn gyffredinol” ym mhob trwydded TTLCS, DTPS, PS-DTPS, L-DTPS, DRS, RTSL-E, DTAS, ASPS, CR, DSPS, AS, DAS, RLCS, LRSL, SRSL, ADS-RSL, R-MUX a DTT-MUX
- Newid geiriad yr holl drwyddedau darlledu i wneud y geiriad yn niwtral o ran cenedl.

¹ Er enghraifft, trwyddedau rhaglenni sain digidol cymunedol a thrwyddedau amblecs radio ar raddfa fach.

² Yn genedlaethol (“AN”) a lleol (“AL”)

³ Yn genedlaethol (“DN”) a lleol (“DP”)

Y camau nesaf

- 1.5 Cyn bo hir byddwn yn amrywio'r trwyddedau darlledu i adlewyrchu'r newidiadau hyn, gan ddechrau'n gyntaf gyda thrwyddedau darlledu teledu. Byddwn yn cwblhau'r newidiadau i drwyddedau darlledu teledu erbyn diwedd y flwyddyn, a bydd yr holl ddiwygiadau'n dod i rym o ddiwedd y cyfnod pontio – 11pm ar 31 Rhagfyr 2020.
- 1.6 Ein nod wedyn yw cwblhau'r newidiadau i drwyddedau radio ac amblecs cyn gynted â phosibl ar ôl hyn. Nid yw'r newidiadau i'r AVMSD a'r Rheoliadau Ymadael yn berthnasol i drwyddedau radio ac amblecs – felly dim ond y newidiadau eraill rydyn ni'n eu gwneud fydd yn cael eu hadlewyrchu yn yr amrywiadau trwydded ar gyfer trwyddedau radio ac amblecs. Daw'r newidiadau i rym o ddiwedd y cyfnod pontio (11pm ar 31 Rhagfyr 2020) os caiff trwydded ei hamrywio cyn y dyddiad hwn. Os caiff trwydded ei hamrywio ar ôl y dyddiad hwn, bydd y newidiadau'n dod i rym ar unwaith.
- 1.7 Wrth baratoi'r Datganiad hwn, gwnaethom sylwi ar rai mân newidiadau pellach yr oeddem yn credu ei bod yn briodol eu gwneud i drwyddedau, h.y.
- a) Gwall croesgyfeirio yng nghyflwr dirymu trwydded TLCS, y bwriadwn ei gywiro; a
 - b) Hen eiriad sydd ddim yn berthnasol mwyach yn y diffiniad o "Cod ar gyfer Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPG)" yn nhrwyddedau TLCS, DTPS, PS-DTPS a DTAS (gweler paragraffau 4.32 a 4.33 isod), y bwriadwn eu dileu.
- 1.8 Gwnaethom gyhoeddi hysbysiad o'r mân newidiadau arfaethedig hyn ar ein gwefan ar 4 Tachwedd 2020. Gan ddibynnu ar yr ymatebion, rydym yn bwriadu cynnwys y newidiadau hyn hefyd yn yr hysbysiadau diwygio rydym yn eu cyflwyno i drwyddedeion yn dilyn y Datganiad hwn.

Mae adran trosolwg y ddogfen hon yn grynodeb syml lefel uchel yn unig. Mae'r penderfyniadau rydym wedi eu gwneud a'n rhesymeg ni wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.